# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

## 243(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ynglŷn â pham y mae Llywodraeth Cymru yn camu allan o'r dull pedair cenedl o ymdrin â'r cynllun dychwelyd ernes?

**I ofyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ar gyhoeddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i oedi darpariaeth llawdriniaethau fasgwlaidd yn Ysbyty Glan Clwyd, a fydd yn arwain at gleifion yn gorfod derbyn triniaethau yn Lloegr?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(0 munud)

## Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau

(5 munud)

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 a 12.40 i grwpio'r cynigion a ganlyn ar gyfer eu trafod a phleidleisio:**

**NNDM8741** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Carolyn Thomas (Llafur Cymru) yn lle Jack Sargeant (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.

**NNDM8742** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Carolyn Thomas (Llafur Cymru) yn lle Hefin David (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

**NNDM8743** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mick Antoniw (Llafur Cymru) yn lle Carolyn Thomas (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

## Cynnig i benodi Comisiynydd Safonau dros dro

(5 munud)

**NNDM8744** Hannah Blythyn (Delyn)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod Comisiynydd Safonau'r Senedd wedi hysbysu'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad na all weithredu mewn perthynas â chwyn benodol.

2. Yn penodi Melissa McCullough yn Gomisiynydd dros dro mewn perthynas â’r gŵyn y cyfeirir ati ym mhwynt 1, yn unol ag Adran 4(1) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, ar sail y telerau a ganlyn:

a) daw’r penodiad i rym ar 21 Tachwedd 2024;

b) daw'r penodiad i ben pan fydd Clerc y Senedd yn hysbysu’r Comisiynydd dros dro;

c) tâl y Comisiynydd dros dro fydd cyfradd ddyddiol o £458.36 (neu pro-rata am ran o ddiwrnod) am weithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rôl a chyfrifoldebau'r swydd, ynghyd â threuliau rhesymol; a

d) Comisiwn y Senedd fydd yn talu pob swm y cyfeirir atynt ym mhwynt 2(c) i'r Comisiynydd dros dro.

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil ar yr hawl i dai digonol - Gohiriwyd

(0 munud)

**NDM8712** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar ymgorffori’r hawl i dai digonol, fel y nodir yn y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR), yng nghyfraith Cymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) sefydlu’r hawl i dai digonol fel hawl sylfaenol yng nghyfraith Cymru, gan sicrhau mynediad i dai saff, diogel a fforddiadwy i bawb;

b) gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i wireddu'n raddol yr hawl i dai digonol;

c) gofyn am asesiadau rheolaidd o anghenion ac amodau tai, gyda thargedau wedi'u gosod i leihau'r anghenion tai sydd heb eu diwallu a gwella amodau dros amser;

d) cryfhau amddiffyniadau tenantiaid a chefnogi arferion rhentu teg i sicrhau sefydlogrwydd tai; ac

e) sefydlu mecanweithiau i unigolion geisio iawn os yw eu hawl i dai digonol yn cael ei dorri neu heb ei fodloni.

**Cyd-gyflwynwyr**

Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd)

## 7 Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2025-26

(30 munud)

**NDM8729** Hefin David (Caerffili)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2025-26, fel y'i nodir yn Nhabl 1 o Gyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2025-26, a osodwyd gerbron y Senedd ar 13 Tachwedd 2024, a'i bod yn cael ei hymgorffori yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

**Dogfennau ategol**

Adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid - Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2025-26

## 8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid - Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

(30 munud)

**NDM8730** Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ‘Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru’ a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2024.

## 9 Dadl Plaid Cymru - Cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr

(60 munud)

**NDM8732** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi penderfyniad Llywodraeth y DU i gynyddu cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yng nghyllideb yr hydref.

2. Yn credu y dylai'r gost ychwanegol i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru gael ei dalu'n llawn gan Drysorlys y DU.

3. Yn nodi asesiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fod disgwyl i'r cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr arwain at arafu twf cyflogau gwirioneddol ar adeg pan mai Cymru sydd â’r cyfraddau cyflogaeth isaf yn y DU.

4. Yn gresynu at y diffyg eglurder o ran a fydd yr ad-daliad gan Drysorlys y DU yn cynnwys, ymhlith sectorau eraill, cyflogwyr fel prifysgolion, meddygon teulu a sefydliadau'r trydydd sector.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

a) i bwyso ar Drysorlys y DU i sicrhau bod yr ad-daliad ar gyfer costau ychwanegol cyfraniadau yswiriant gwladol yn y sector cyhoeddus yn seiliedig ar ddiffiniadau StatsCymru a’r Arolwg o’r Lafurlu o weithlu'r sector cyhoeddus, sy'n cynnwys ymhlith sectorau eraill cyflogwyr fel prifysgolion, meddygon teulu a sefydliadau'r trydydd sector.

b) i ddarparu dadansoddiad cynhwysfawr o'r effaith y bydd y cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn ei chael ar y farchnad swyddi yng Nghymru; ac

c) i gynyddu lefel y rhyddhad ardrethi busnes yng nghyllideb Cymru sydd ar ddod er mwyn lliniaru ar effaith y cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol yn y sector busnesau bach a chanolig domestig.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) penderfyniad Llywodraeth y DU i gynyddu cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yng nghyllideb yr hydref, er mwyn helpu i sefydlogi sefyllfa ariannol y wlad;

b) asesiad cyffredinol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y bydd effaith net polisïau Cyllideb Llywodraeth y DU yn cynyddu twf yn y tymor hwy;

c) awgrym Trysorlys y DU y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer costau cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn y sector cyhoeddus;

d) cadarnhad Trysorlys y DU y bydd, wrth wneud hynny, yn dilyn dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sef yr hyn a fabwysiadwyd gan lywodraethau blaenorol; ac

e) o ganlyniad i'r holl fesurau yng Nghyllideb Llywodraeth y DU, na fydd 865,000 o fusnesau yn y DU yn talu cyfraniadau yswiriant gwladol o gwbl, ac y bydd dros hanner y cyflogwyr sydd ag atebolrwydd i dalu cyfraniadau yswiriant gwladol naill ai'n gweld dim newid neu ar eu hennill yn gyffredinol y flwyddyn nesaf.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ôl pwynt 4 ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn gresynu ymhellach fod Llywodraeth Lafur y DU wedi torri ymrwymiad yn ei maniffesto i beidio â chodi treth ar bobl sy'n gweithio.

## 10 Cyfnod Pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8731** Gareth Davies (Dyffryn Clwyd)

Gwneud cynnydd neu gadw pethau fel ag y maent: sut y dylai llywodraeth gyfrifol ymateb i newid diwylliannol a chymdeithasol yng Nghymru?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 26 Tachwedd 2024

## Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 13/11/2024 i'w hateb ar 20/11/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

### YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS DRAFNIDIAETH A GOGLEDD CYMRU

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

1 OQ61873 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifenydd Cabinet esbonio pam fod yr amserlen a luniwyd yn 2023 ar gyfer penodi asiant cyflogaeth ar gyfer ffordd osgoi Llandeilo wedi ei gohirio am bum mis?

**Peter Fox** *Mynwy*

2 OQ61900 **(e)**

A wnaiff Llywodraeth Cymru ddatganiad am gysylltedd ffyrdd yn ne ddwyrain Cymru?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3 OQ61891 **(e)**

Pa asesiad y mae’r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o'r gwelliannau i ddiogelwch cyffyrdd sydd eu hangen yng nghanolbarth Cymru?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ61874 **(d)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau bysiau yng Ngorllewin De Cymru?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ61889 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Metro De Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

6 OQ61868 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn gwasanaethau bysiau?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

7 OQ61867 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ehangu parth taliadau cosb Trafnidiaeth Cymru?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

8 OQ61894 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi teithio llesol yng Ngogledd Caerdydd?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

9 OQ61884 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad gwasanaethau Trafnidiaeth Cymru ar reilffordd y Cambrian?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

10 OQ61902 **(e)** Tynnwyd yn ôl

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad am fuddsoddi mewn bysiau a rheilffyrdd yn Islwyn?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

11 OQ61881 **(e)**

Pa drafodaethau y mae’r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â’r argymhellion yn ymwneud â rheilffyrdd a nodwyd yn adroddiad Comisiwn Burns?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

12 OQ61869 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am system Metro Gogledd Cymru?

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYFIAWNDER CYMDEITHASOL, Y TREFNYDD A’R PRIF CHWIP

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ61893 **(e)**

Beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i drechu tlodi ymhlith pobl hŷn yn Nwyrain De Cymru?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ61886 **(e)**

Sut y mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn cydweithio ag aelodau eraill o'r Cabinet a Llywodraeth y DU i gydlynu cefnogaeth i bobl ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o’r carchar?

**Buffy Williams** *Rhondda*

3 OQ61887 **(e)**

Sut y mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn hyrwyddo cynllun canolfannau clud Llywodraeth Cymru, y dyrannwyd £1.5 miliwn ar ei gyfer?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ61872 **(w)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y DU i leddfu tlodi tanwydd?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

5 OQ61890 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Pa asesiad y mae’r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o'r effaith y caiff undebau credyd wrth gefnogi pobl i fenthyca mewn modd moesegol?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

6 OQ61870 **(e)**

Pa gamau y mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn eu cymryd i weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a rhieni i atal y cylch o ymddygiad gwrthgymdeithasol a difrod troseddol a achosir gan oedolion ifanc yn Aberconwy?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

7 OQ61898 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

8 OQ61904 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pensiynwyr yn Nwyrain De Cymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

9 OQ61871 **(e)**

Pa drafodaethau y mae’r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch datganoli cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

10 OQ61896 **(w)** Tynnwyd yn ôl

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi teuluoedd rhiant sengl sy'n byw mewn tlodi yn Arfon?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

11 OQ61888 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith penderfyniad Llywodraeth y DU i ddileu taliadau tanwydd ar bensiynwyr yng Ngorllewin De Cymru y gaeaf hwn?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

12 OQ61905 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch effaith rhyddhau carcharorion o'r carchar yn gynnar ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?

## COMISIWN Y SENEDD

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

1 OQ61879 **(e)**

Faint y mae diwygio'r Senedd yn ei gostio i'r Comisiwn?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

2 OQ61897 **(e)**

Sut y mae'r Comisiwn yn gweithio i wella hygyrchedd trafodion y Senedd ar gyfer pobl fyddar a phobl ag amhariad ar y clyw?

**Joel James** *Canol De Cymru*

3 OQ61877 **(e)**

Pa weithdrefnau sydd ar waith ar gyfer penderfynu pryd y caiff y Senedd ei goleuo i gefnogi gwahanol achosion?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

4 OQ61906 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Beth y mae'r Comisiwn yn ei wneud i wella iechyd a ffitrwydd Aelodau a staff?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

5 OQ61892 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Pa gamau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd i sicrhau bod gan Aelodau a staff fynediad at y sianeli newyddion sydd eu hangen arnynt ar system deledu fewnol y Senedd?